**Jeff Cuthbert AC / AM**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**
**Minister for Communities and Tackling Poverty**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyfeirnod: MB/JC/2973/14

Christine Chapman AC/AM
Cadeirydd

Y Pwyllgor Cymunedau,
Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

11 Gorffennaf 2014

Annwyl Christine

**SESIWN CRAFFU CANOL BLWYDDYN – CAIS AM RAGOR O WYBODAETH YN DILYN Y CYFARFOD AR 19 MEHEFIN 2014**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 26 Mehefin yn dilyn y sesiwn craffu canol blwyddyn a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2014.

Yn ystod fy nhystiolaeth yn y sesiwn craffu, cytunais i roi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch Cymunedau yn Gyntaf ac Undebau Credyd, ac rwy'n ei nodi isod:

**Manylion y canllawiau a roddwyd i awdurdodau lleol fel rhan o'u gwaith o graffu ar dderbynyddion grantiau Cymunedau yn Gyntaf**

Mae canllawiau wedi cael eu rhoi i bob derbynnydd cyllid Cymunedau yn Gyntaf ac wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru; rhoddir dolen isod.

http://wales.gov.uk/topics/people-and-communities/regeneration/communitiesfirst/guidance/?skip=1&lang=cy

**Manylion am unrhyw gynnydd yn nifer aelodau Undebau Credyd yn dilyn ymgyrch marchnata Llywodraeth Cymru**

Parhaodd yr ymgyrch marchnata am 3 mis o ddechrau mis Ebrill i ddiwedd mis Mehefin eleni. Caiff ffigurau aelodaeth diweddaraf Undebau Credyd ar gyfer y chwarter Ebrill i Fehefin eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru yn ddiweddarach yn y mis hwn gan Undebau Credyd. Dyma fydd y cyfle cyntaf i gael gwybod am y cynnydd yn nifer yr aelodau fydd wedi deillio o'r ymgyrch marchnata hon.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.jeff.cuthbert@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Mae'r Pwyllgor hefyd wedi gofyn am ragor o wybodaeth yn ymwneud â Chymunedau yn Gyntaf, y Gronfa Cymorth Dewisol, Credyd Cynhwysol a thargedau aelodaeth Undebau Credyd; rwy'n ei nodi isod:

**Manylion y dangosyddion perfformiad ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf**

Mae perfformiad rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei fesur gan ddefnyddio'r Fframwaith Canlyniadau. Cafodd hwn ei gyhoeddi fel Atodiad 5 i'r canllawiau uchod. Mae copi o'r fframwaith cyfredol ar gyfer 2014/15 yn amgaeedig.

Mae'r Fframwaith Canlyniadau'n cael ei fireinio'n fwy byth ac ar hyn o bryd mae gwaith ar y gweill i gysoni mesurau perfformiad ar draws Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg i ardaloedd lle bo gan yr holl raglenni waith yn gyffredin.

**Manylion trefniadau monitro'r tanwariant a gofnodir ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol**

Mae lefelau gwariant y Gronfa Cymorth Dewisol yn cael eu hadolygu'n ddi-baid. Caiff gwybodaeth reoli ei chyflwyno bob mis i Lywodraeth Cymru gan Northgate Public Services, sy'n rheoli'r Gronfa Cymorth Dewisol o dan gontract i Lywodraeth Cymru. Caiff yr adroddiadau hyn eu trafod yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd Gweithredol a gynhelir rhwng Northgate Public Services a'm swyddogion i. Mae'r trafodaethau hyn yn cynnwys ystyried lefelau gwariant, sy'n caniatáu i ni gynllunio a gweithredu'n unol â hynny.

**Adroddiad cynnydd ar ddatblygiadau mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol**

Cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ar 30 Mehefin y bydd Canolfannau Gwaith yn Hammersmith, Caerfaddon, Rugby, Harrogate ac Inverness yn cymryd hawliadau newydd am Gredyd Cynhwysol oddi wrth barau yn ogystal â'r rhai oddi wrth geiswyr gwaith sengl.

Hefyd daeth Credyd Cynhwysol yn weithredol mewn pum Canolfan Gwaith arall yng Ngogledd-orllewin Lloegr o 30 Mehefin 2014 ymlaen.

Cyhoeddodd yr Adran Gwaith a Phensiynau ar 20 Mehefin ei hamserlen ar gyfer ehangu Credyd Cynhwysol i Ogledd-orllewin Lloegr. Caiff ei gyflwyno fesul cam yn wythnosol rhwng 23 Mehefin a 28 Gorffennaf, lle bydd unigolion mewn ardaloedd cod post neilltuol yn dod yn gymwys. Bydd yr holl feini prawf cymhwysedd eraill yn aros yr un fath â'r Canolfannau Gwaith gweithredol presennol h.y. ceiswyr gwaith sengl heb ddibynyddion.

Cafodd Credyd Cynhwysol ei gyflwyno ar gyfer ceiswyr gwaith sengl heb ddibynyddion yn Shotton, Sir y Fflint ar 7 Ebrill 2014. Mae niferoedd hawliadau Credyd Cynhwysol yn dal i fod yn fach iawn.

Bydd yr ehangu yng Ngogledd-orllewin Lloegr yn digwydd ar 28 Gorffennaf wrth iddo gael ei gyflwyno mewn nifer o godau post yn ardal Caer. Gall hyn gael effaith ar y niferoedd yng Nghanolfan Gwaith Shotton gyda'r gorgyffwrdd codau post â Chaer, lle bydd yn rhaid i hawlwyr gyflwyno hawliadau trwy Ganolfan Gwaith Shotton.

Mae ystadegau misol yn cael eu cyhoeddi gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch cyflwyno Credyd Cynhwysol. Maent yn cynnwys dadansoddiad o 'ddechreuwyr' fesul Canolfan Gwaith. Mae'r cyhoeddiad nesaf i fod ar 11 Gorffennaf a bydd yn cynnwys y wybodaeth gyntaf ar gyfer Shotton (Ebrill 2014).

Treialon Cadarn Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol

Ar 10 Gorffennaf, cyhoeddodd Arglwydd Freud, y Gweinidog Lles, 11 o geisiadau llwyddiannus a gyflwynwyd ar y cyd gan Ardaloedd Adran Gwaith a Phensiynau / Awdurdodau Lleol ar gyfer Treialon Cadarn Fframwaith Gwasanaethau Cymorth Lleol. Mae'r rhain yn cynnwys dau gais llwyddiannus i Gymru, ym Mlaenau Gwent a Sir Gâr. Mae'r treialon cadarn i fod i bara am flwyddyn gan ddechrau ar 1 Medi 2014.

**Gwybodaeth am dargedau aelodaeth Undebau Credyd**

Ar ddiwedd Mawrth 2014, amcangyfrifwyd mai 65,000 oedd nifer aelodau mewn oed yr holl Undebau Credyd yng Nghymru, ac mai mwy na 78,000 oedd nifer yr holl aelodau, gan gynnwys cynilwyr iau. Trwy'r Prosiect Undebau Credyd, mae 17 Undeb Credyd wedi helpu mwy na 33,000 o oedolion sy'n bodloni'r diffiniad o fod wedi'u hallgáu'n ariannol i allu cael cynhyrchion ariannol sy'n syml, yn dryloyw ac yn fforddiadwy. Ers mis Ebrill eleni, mae £1.9 miliwn yn ychwanegol ar gael i Undebau Credyd sy'n cymryd rhan yn y Prosiect, gan ei ymestyn hyd fis Mawrth 2017. Mae targedau ynghlwm wrth y cyllid hwn, a chânt eu monitro'n fanwl gan Lywodraeth Cymru. Maent yn cynnwys nifer yr unigolion sydd wedi'u hallgáu'n ariannol a gynorthwyir yn ogystal â gwybodaeth am gyfanswm yr aelodau. Mae targedau unigol wedi cael eu rhoi i bob Undeb Credyd a disgwylir y bydd y cyllid sydd ar gael yn awr yn caniatáu i 8,328 o aelodau ychwanegol sydd wedi'u hallgáu'n ariannol allu manteisio ar wasanaethau ariannol mewn Undeb Credyd.

Hyderaf y bydd y wybodaeth hon o ddefnydd i'r Pwyllgor.

Yn gywir

**Jeff Cuthbert AC / AM**
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi
Minister for Communities and Tackling Poverty